WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygiad dilynol o drefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful**

Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1460A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, lle y bo'n briodol, yr archwilydd penodedig yw'r trydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Huw Lloyd Jones, Lisa McCarthy a Sara-Jane Byrne dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Cynigion ar gyfer gwella 5

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i'r rhan fwyaf o'n hargymhellion ynghylch diogelu corfforaethol a gyhoeddwyd yn 2015 ond mae'n cydnabod bod angen gwaith pellach i sicrhau bod ei drefniadau'n gynhwysfawr 6

Mae arweinwyr corfforaethol wedi cymryd camau priodol i estyn eu dylanwad er mwyn codi ymwybyddiaeth o faterion diogelu ar draws y Cyngor a'i bartneriaid 6

Mae'r Cyngor wedi rhoi gweithdrefnau eglur ar waith i recriwtio staff yn ddiogel ond mae'n cydnabod na all fod yn sicr eto bod yr holl staff perthnasol yn mynychu hyfforddiant rheolaidd ar faterion diogelu 7

Mae trefniadau i asesu risg mewn perthynas â diogelu'n gadarn ond mae cyfleoedd i gryfhau trosolwg aelodau ar berfformiad y Cyngor ym maes diogelu 8

Atodiadau

Atodiad 1 – Argymhellion a oedd wedi'u cynnwys yn yr 'Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru' gan yr Archwilydd Cyffredinol (Gorffennaf 2015) 10

Atodiad 2 – Cynigion ar gyfer gwella a oedd wedi'u cynnwys yn Adolygiad yr Archwilydd Cyffredinol o Drefniadau'r Cyngor i Gefnogi Diogelu Plant (Hydref 2014) 12

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei **Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru**[1] ym mis Gorffennaf 2015. Roedd yr adroddiad cenedlaethol hwn yn canolbwyntio ar ddiogelu plant ac mae'n cynnwys saith argymhelliad ar gyfer cynghorau ac un ar gyfer Llywodraeth Cymru. Rydym wedi nodi'r argymhellion ar gyfer cynghorau yn Atodiad 1.

2 Fe wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi adroddiad ar wahân ar drefniadau corfforaethol cynghorau unigol ar gyfer diogelu plant hefyd ac fe gyhoeddodd yr adroddiad lleol ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful[2] (y Cyngor) ym mis Hydref 2014. Roedd adroddiad Merthyr yn cynnwys pum cynnig ar gyfer gwella, a nodir yn Atodiad 2, ac roedd yn dod i'r casgliad canlynol: 'Mae rhai gwendidau yn y trefniadau llywodraethu, atebolrwydd a rheoli ar gyfer goruchwylio pa un a yw'r Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau diogelu ac mae'r Cyngor wrthi'n mynd i'r afael â'r gwendidau hyn'.

3 Mae'r adroddiad hwn yn ystyried y cynnydd a wnaed gan y Cyngor o ran rhoi'r argymhellion yn yr adroddiad cenedlaethol ar waith. Mae'r argymhellion hynny'n gogynnwys y cynigion ar gyfer gwella a oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad lleol cynharach felly nid ydym wedi adrodd ar wahân ar y cynnydd yn erbyn y cynigion hynny. Er bod rhai trefniadau llywodraethu ar gyfer diogelu'n gweithredu'n rhanbarthol trwy Fwrdd Diogelu Cwm Taf, roedd ffocws ein hadolygiad ar drefniadau corfforaethol y Cyngor ei hun.

4 Fe gynhaliom ni'r adolygiad hwn yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2019 i geisio sicrwydd bod gan y Cyngor drefniadau corfforaethol effeithiol ar gyfer diogelu plant. Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: a yw'r Cyngor wedi ymateb yn effeithiol i'r argymhellion ar gyfer holl gynghorau Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2015?

### Yr hyn a ganfuom

5 Ar y cyfan, canfuom fod y Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i'r rhan fwyaf o'n hargymhellion ynghylch diogelu corfforaethol a gyhoeddwyd yn 2015 ond mae'n cydnabod bod angen gwaith pellach i sicrhau bod ei drefniadau'n gynhwysfawr:

- mae arweinwyr corfforaethol wedi cymryd camau priodol i estyn eu dylanwad er mwyn codi ymwybyddiaeth o faterion diogelu ar draws y Cyngor a'i bartneriaid;

[1] Mae copi o'r adroddiad ar gael ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru www.audit.wales

[2] Archwilydd Cyffredinol Cymru, **Trefniadau Awdurdodau Lleol i Gefnogi Diogelu Plant – Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr,** Hydref 2014.

- mae'r Cyngor wedi rhoi gweithdrefnau eglur ar waith i recriwtio staff yn ddiogel ond mae'n cydnabod na all fod yn sicr eto bod yr holl staff perthnasol yn mynychu hyfforddiant rheolaidd ar faterion diogelu; ac
- mae trefniadau i asesu risg mewn perthynas â diogelu'n gadarn ond mae cyfleoedd i gryfhau trosolwg aelodau ar berfformiad y Cyngor ym maes diogelu.

# Cynigion ar gyfer gwella

Mae'r tabl isod yn nodi'r cynigion ar gyfer gwella yr ydym wedi'u hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| C1 | Er mwyn mynd ati ymhellach i estyn ymwybyddiaeth o faterion a gweithdrefnau diogelu ymhlith ei staff a'i bartneriaid, dylai'r Cyngor adolygu a gwerthuso effaith ei Grŵp Cyfeirio Diogelu Corfforaethol. |
| C2 | Er mwyn mynd ati ymhellach i leihau'r risgiau i blant a phobl ifanc, dylai'r Cyngor gyflwyno systemau sy'n cofnodi pa un a yw'r holl staff wedi cael hyfforddiant ar faterion a gweithdrefnau diogelu sy'n briodol i'w rolau. |
| C3 | Dylai aelodau etholedig gael cyfleoedd rheolaidd i graffu ar berfformiad y Cyngor o ran lleihau i'r eithaf y risgiau i lesiant plant a phobl ifanc ym Merthyr Tudful a'i drefniadau ar gyfer gwneud hynny. |

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i'r rhan fwyaf o'n hargymhellion ynghylch diogelu corfforaethol a gyhoeddwyd yn 2015 ond mae'n cydnabod bod angen gwaith pellach i sicrhau bod ei drefniadau'n gynhwysfawr

### Mae arweinwyr corfforaethol wedi cymryd camau priodol i estyn eu dylanwad er mwyn codi ymwybyddiaeth o faterion diogelu ar draws y Cyngor a'i bartneriaid

6 Mabwysiadodd y Cyngor ei bolisi diogelu corfforaethol ym mis Hydref 2015. Mae'r polisi wedi cael ei adolygu a'i ddiweddaru ers hynny. Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n cyflawni rôl swyddog diogelu arweiniol y Cyngor. Mae hynafedd ei rôl yn ei galluogi i sicrhau bod risgiau i ddiogelu a mesurau i'w lliniaru'n cael amlygrwydd dyladwy o fewn y tîm rheoli corfforaethol. Mae'r Cyngor hefyd wedi sefydlu rôl aelod arweiniol ar gyfer diogelu o fewn y Cabinet, ond mae nifer o newidiadau diweddar i ddeiliad y swydd wedi tanseilio effaith y rôl hon.

7 Sefydlodd y Cyngor Grŵp Cyfeirio Diogelu Corfforaethol (GCDC) yn 2016 mewn ymateb i'r ymchwiliad annibynnol i gamfanteisio ar blant yn Rotherham. Er nad grŵp penderfynu mohono, rôl y GCDC yw lledaenu gwybodaeth am faterion diogelu a chodi ymwybyddiaeth ar draws yr holl feysydd gwasanaeth o fewn y Cyngor. Mae aelodaeth y GCDC yn cynnwys aelodau etholedig a chynrychiolwyr o bartneriaid yn y trydydd sector yn ogystal â staff y Cyngor. Ceir disgwyliad bod y rhai sy'n mynychu cyfarfodydd y GCDC yn rhaeadru'r wybodaeth y maent wedi'i chael o fewn eu hadrannau eu hunain. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn monitro i ba raddau y mae lledaenu'n digwydd ac nid yw wedi gwerthuso effaith y GCDC.

8 Mae'r Cyngor wedi gweithredu'n gadarnhaol mewn ymateb i bresenoldeb llai a llai yng nghyfarfodydd chwarterol y GCDC trwy benodiad diweddar y swyddog diogelu arweiniol fel cadeirydd. Mae'n rhy gynnar pwyso a mesur llwyddiant y newid hwn, ond y nod yw sicrhau y bydd hynafedd y cadeirydd o fewn y sefydliad yn arwydd o'r flaenoriaeth gorfforaethol a roddir i'r grŵp. Mae'r cadeirydd hefyd mewn sefyllfa dda i fwydo materion sy'n codi o fewn y GCDC i mewn i drafodaethau'r tîm rheoli corfforaethol, lle mae diogelu'n fater sefydlog ar yr agenda.

## Mae'r Cyngor wedi rhoi gweithdrefnau eglur ar waith i recriwtio staff yn ddiogel ond mae'n cydnabod na all fod yn sicr eto bod yr holl staff perthnasol yn mynychu hyfforddiant rheolaidd ar faterion diogelu

9 Mae gan y Cyngor weithdrefnau priodol i sicrhau ei fod yn recriwtio staff yn ddiogel. Fe gyfeirion ni yn ein hadroddiad yn 2014 at y ffaith bod y Cyngor wedi llunio a'i fod yn defnyddio'i Fframwaith a Chanllawiau Recriwtio Diogel er mwyn sicrhau bod staff a benodir i swyddi perthnasol yn cael gwiriadau priodol. Ers hynny, mae Bwrdd Diogelu Plant Cwm Taf wedi adnabod yr holl swyddi yn strwythur y Cyngor y mae gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn angenrheidiol ar eu cyfer. Mae Polisi Recriwtio Diogel y Cyngor yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd dan Adran 175 o Ddeddf Addysg 2002, sy'n sicrhau bod staff a benodir i weithio mewn ysgolion yn cael gwiriadau cefndir priodol.

10 Mae gan wasanaeth Adnoddau Dynol y Cyngor systemau priodol i fonitro cydymffurfiaeth â'r polisi recriwtio diogel ac mae'n dwyn unrhyw eithriadau i sylw Prif Swyddogion. Mewn achosion lle mae angen i staff newydd ymgymryd â swydd cyn bod gwiriadau cyn cyflogi wedi cael eu cwblhau, mae'r Cyngor yn rhoi trefniadau addas ar waith i reoli'r risg gysylltiedig.

11 Fel pob cyngor, mae'r Cyngor yn rhoi contractau i drydydd partïon i ddarparu rhai gwasanaethau ar ei ran, gan gynnwys agweddau ar ofal cymdeithasol. Mewn achosion o'r fath, mae'r broses gaffael yn ei gwneud yn ofynnol i ddarpar gontractwyr allu dangos cadernid eu gweithdrefnau recriwtio eu hunain.

12 Mae trefniadau priodol yn bodoli i sicrhau bod staff sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol ac yn y gweithlu ysgolion yn cael hyfforddiant rheolaidd ar faterion diogelu. Yn y ddau sector, ceir systemau sy'n galluogi'r Cyngor i dracio i ba raddau y mae unigolion wedi ymgysylltu â'r rhaglen hyfforddi. Fodd bynnag, rydym wedi cyhoeddi adroddiad ar wahân[3] yn ddiweddar ar gyfer y Cyngor sy'n cyfeirio at wendidau yn nogfennaeth ymchwiliad diogelu a ddigwyddodd yn 2016. Fe wnaeth diffyg cofnodion priodol ar y pryd danseilio gallu'r Cyngor i gyfiawnhau rhai o'r penderfyniadau a wnaed.

13 Yn fwy diweddar, fe arolygodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) Wasanaethau Plant y Cyngor[4] yn ystod gwanwyn 2018 ac adroddodd fel a ganlyn: 'Roedd gweithdrefnau a phrosesau diogelu'n cael eu deall a'u dilyn gan staff, gan sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu hamddiffyn mewn modd prydlon a chyson'.

14 Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran ehangu'r ddarpariaeth hyfforddiant diogelu a'r nifer sy'n cael yr hyfforddiant y tu hwnt i'r gweithluoedd gwasanaethau

[3] Swyddfa Archwilio Cymru, **Adolygiad o drefniadau chwythu'r chwiban mewn perthynas â diogelu**, Gorffennaf 2019.

[4] Arolygiaeth Gofal Cymru, **Arolygiad o Wasanaethau Plant: Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful**, Awst 2018.

cymdeithasol ac addysg. Er enghraifft, mae wedi anelu hyfforddiant at yrwyr tacsis trwyddedig a darparwyr cludiant rhwng y cartref a'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn gallu bod yn sicr eto bod yr holl staff a chontractwyr perthnasol ar draws yr holl wasanaethau wedi cwblhau'r hyfforddiant angenrheidiol. Mae'r Cyngor wedi dechrau cyflwyno pecynnau e-ddysgu i fynd ati ymhellach i godi ymwybyddiaeth staff o faterion a gweithdrefnau diogelu ac mae'n bwriadu ehangu'r defnydd ohonynt. Fodd bynnag, mae angen gwaith pellach i fynd i'r afael yn llawn ag argymhelliad 6 yn yr adroddiad cenedlaethol a gyhoeddwyd gennym yn 2015 (Atodiad 1).

## Mae trefniadau i asesu risg mewn perthynas â diogelu'n gadarn ond mae cyfleoedd i gryfhau trosolwg aelodau ar berfformiad y Cyngor ym maes diogelu

15 Mae pwyllgor craffu gwasanaethau cymdeithasol y Cyngor yn cwrdd bob rhyw chwe wythnos.

16 Mae'r pwyllgor yn cael adroddiad blynyddol gan Fwrdd Diogelu Lleol Cwm Taf. Rhoddodd y pwyllgor ystyriaeth i adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ar wasanaethau plant, a gyhoeddwyd yn 2018, a chafodd ddiweddariad ar y Polisi Diogelu Corfforaethol ym mis Ebrill 2018. Rhoddodd swyddogion wybod inni eu bod yn cyflwyno adroddiadau i'r pwyllgor craffu pan fo wneir newidiadau sylweddol neu pan fo materion yn codi.

17 Fodd bynnag, mae cyfle i gryfhau rôl aelodau o ran ceisio sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd trefniadau diogelu'r Cyngor. Mae'r pwyllgor craffu gwasanaethau cymdeithasol yn cael ystod gyfyngedig o wybodaeth am wybodaeth a data meincnodi mewn adroddiadau a ddarperir gan Fwrdd Diogelu Lleol Cwm Taf.

18 Fe wnaeth trafodaethau yn gynnar yn 2018 am y flaenraglen waith ystyried a ddylai'r pwyllgor fynd ati, yn y dyfodol, i graffu ar gynnydd y Cyngor o ran rhoi Argymhelliad 6 o'n hadroddiad cenedlaethol yn 2015 (gweler Atodiad 1) ar waith. Fodd bynnag, nid yw'r pwyllgor wedi ystyried yr eitem hon eto ac nid yw'n rhan o'r flaenraglen waith mwyach. Mae swyddogion y Cyngor yn cydnabod bod cyfle i ehangu a gwella rôl y swyddogaeth graffu lle mae diogelu yn y cwestiwn.

19 Mae diogelu wedi'i gynnwys fel risg yng nghofrestr risgiau corfforaethol y Cyngor, a adolygir yn chwarterol. Hefyd, mae diogelu'n eitem sefydlog ar yr agendau yng nghyfarfodydd pythefnosol tîm rheoli corfforaethol y Cyngor. Fodd bynnag, ac er gwaethaf y ffaith bod diogelu'n cael lle blaenllaw fel risg gorfforaethol, nododd ein hadroddiad ar gyfer y Cyngor yn 2014 nad oedd materion diogelu yn cael sylw arwyddocaol yn rhaglen Archwilio Mewnol y Cyngor. Felly y mae hi o hyd; pennir y rhaglen Archwilio Mewnol mewn ymateb i broses gynllunio sy'n seiliedig ar risgiau, a bydd risgiau o ran diogelu yn cael eu cynnwys yn y rhaglen archwilio mewnol dim ond pan fo tebygolrwydd ac effaith y risg a adnabuwyd yn cyrraedd y trothwy angenrheidiol. Felly nid yw'r Cyngor wedi mynd i'r afael â'r argymhelliad a wnaed yn ein hadroddiad yn 2015 y dylai cynghorau sefydlu rhaglen dreigl o adolygiadau

archwilio mewnol i brofi systemau a chynnal adolygiadau o gydymffurfiaeth mewn perthynas ag arferion diogelu'r Cyngor.

20 Yn ddiweddar, mae swyddogaeth Archwilio Mewnol y Cyngor wedi uno â'r timau cyfatebol mewn tri awdurdod cyfagos i ddarparu cydwasanaeth archwilio mewnol. Mae'r broses uno hon yn cynnig y potensial i gynyddu capasiti archwilio mewnol, gan felly ei gwneud yn bosibl ystyried risgiau is nag o'r blaen. Rydym yn ymwybodol bod y timau Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiadau diogelu blynyddol mewn dau o'r cynghorau yn y cydwasanaeth.

21 Mae'r rheolwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol yn cynnal 'archwiliadau proffesiynol' o ffeiliau achosion. Mae'r archwiliadau hyn wedi cyfrannu at ddatblygu Fframwaith Sicrhau Ansawdd sy'n gysylltiedig â phum categori o bobl ifanc agored i niwed. Mae'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd yn ceisio adnabod hanfodion arfer da ar gyfer pob categori, gan nodi mesurau perthnasol o faint, ansawdd a deilliannau. Yn niffyg adroddiadau Archwilio Mewnol, mae'r wybodaeth sy'n deillio o'r archwiliadau hyn gan reolwyr yn cynnig y potensial i roi mwy o sicrwydd i gynghorwyr ynghylch gwaith y Cyngor mewn perthynas â phobl ifanc agored i niwed, gan gynnwys diogelu.

# Atodiad 1

## Argymhellion a oedd wedi'u cynnwys yn yr 'Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru' gan yr Archwilydd Cyffredinol (Gorffennaf 2015)

Arddangosyn 2: argymhellion o'r adroddiad cenedlaethol

| Argymhellion o'r adroddiad cenedlaethol | | Paragraffau perthnasol yn yr adroddiad hwn |
|---|---|---|
| **A1** | Gwella arweiniad corfforaethol a chydymffurfio â pholisi Llywodraeth Cymru ar ddiogelu trwy wneud yr isod:<br>• penodi uwch-swyddog arweiniol fydd yn atebol am ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc gyda chyfrifoldebau corfforaethol am gynllunio gwelliannau;<br>• penodi aelod arweiniol dros ddiogelu; a<br>• dosbarthu a chyfoesi yn rheolaidd wybodaeth am y penodiadau hyn i'r holl staff a rhanddeiliaid. | Paragraffau 6 i 8 |
| **A2** | Sicrhau bod polisi corfforaethol ar ddiogelu sy'n cynnwys holl wasanaethau'r cyngor er mwyn rhoi cyfeiriad strategol clir a llinellau atebolrwydd clir ar draws y cyngor. | Paragraff 6 |
| **A3** | Cryfhau recriwtio staff a gwirfoddolwyr yn ddiogel trwy:<br>• sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a chydymffurfio a pholisïau recriwtio diogel yn cynnwys pob gwasanaeth sy'n dod i gysylltiad â phlant;<br>• creu system gydymffurfio gorfforaethol integredig i gofnodi a monitro lefelau cydymffurfio ar wiriadau DBS; a<br>• mynnu cael arferion recriwtio diogel ymysg partneriaid yn y trydydd sector ac i wirfoddolwyr sydd yn darparu gwasanaethau a gomisiynir a/neu a ddefnyddir gan y cyngor gyda sylfaen o gontract neu gytundeb lefel gwasanaeth. | Paragraffau 9 i 11 |

| Argymhellion o’r adroddiad cenedlaethol | Paragraffau perthnasol yn yr adroddiad hwn |
|---|---|
| **A4** Sicrhau bod y staff, aelodau a phartneriaid perthnasol yn deall eu cyfrifoldebau diogelu trwy:<br>• sicrhau bod hyfforddiant diogelu yn orfodol a bod yr ymdriniaeth yn ymestyn at holl feysydd gwasanaeth perthnasol y cyngor, a’i fod yn cael ei gynnwys fel elfen safonol ar raglenni cynefino;<br>• creu system ledled y gorfforaeth i adnabod, olrhain a monitro cydymffurfiaeth â’r angen i fod yn bresennol mewn hyfforddiant diogelu yn holl adrannau’r cyngor, aelodau etholedig, ysgolion, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr; a<br>• mynnu bod staff perthnasol mewn sefydliadau sy’n bartneriaid a gomisiynir i weithio dros y cyngor wrth gyflenwi gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn gorfod ymgymryd â hyfforddiant diogelu. | Paragraffau 12 i 14 |
| **A6**[5] Gwella atebolrwydd am ddiogelu corfforaethol trwy adrodd yn rheolaidd ar faterion diogelu a sicrwydd wrth bwyllgor(au) craffu yn erbyn set gytbwys o wybodaeth perfformiad ledled y cyngor ynglŷn â’r canlynol:<br>• meincnodi a chymharu ag eraill;<br>• casgliadau archwiliadau/adolygiadau arolygu mewnol ac allanol;<br>• data perfformiad seiliedig ar wasanaethau;<br>• data personél allweddol megis hyfforddiant diogelu, a gwiriadau recriwtio GDA; a<br>• pherfformiad contractwyr a gwasanaethau a gomisiynwyd o ran cydymffurfio â chyfrifoldebau diogelu’r cyngor | Paragraffau 15, 18 |
| **A7** Sefydlu rhaglen dreigl o adolygiadau archwilio mewnol i gynnal profion ar systemau a chynnal adolygiadau cydymffurfio ar arferion diogelu’r cyngor. | Paragraffau 16 i 17 |
| **A8** Sicrhau yr ystyrir y risgiau sy’n gysylltiedig â diogelu ar lefel gorfforaethol a gwasanaeth wrth ddatblygu a chytuno ar gynlluniau rheoli risg ar draws y cyngor. | Paragraff 16 |

[5] Argymhelliad ar gyfer Llywodraeth Cymru yn hytrach na chynghorau oedd Argymhelliad 5 felly nid yw wedi’i gynnwys yn y rhestr uchod.

# Atodiad 2

## Cynigion ar gyfer gwella a oedd wedi'u cynnwys yn Adolygiad yr Archwilydd Cyffredinol o Drefniadau'r Cyngor i Gefnogi Diogelu Plant (Hydref 2014)

Arddangosyn 3: cynigion ar gyfer gwella

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| **C1** | Datblygu Polisi Diogelu Corfforaethol sy'n nodi'n glir beth yw'r rolau, y cyfrifoldebau a'r gweithdrefnau ar gyfer diogelu a sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei integreiddio â gwaith Bwrdd Diogelu Plant Cwm Taf. |
| **C2** | Cytuno ar Swyddogion Diogelu dynodedig ym mhob un o feysydd gwasanaeth y Cyngor. |
| **C3** | Sicrhau bod yr holl aelodau a staff sy'n dod i gysylltiad â phlant yn rheolaidd yn cael hyfforddiant ar faterion diogelu ac amddiffyn plant a pholisi'r Cyngor ar ddiogelu. |
| **C4** | Gwella gwaith pwyllgorau Craffu'r Cyngor i sicrhau ei fod yn rhoi sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd trefniadau diogelu corfforaethol y Cyngor. |
| **C5** | Adnabod a chytuno ar raglen briodol o waith archwilio mewnol ar gyfer diogelu. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru